OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 80(1)(a) a (b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

Mae Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016 ("Rheoliadau 2016") yn pennu'r disgrifiadau o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid cadw cofrestr ar eu cyfer.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2016 drwy amnewid paragraff (2)(b) a mewnosod paragraff newydd (2)(bb) i ddarparu bod rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o unigolion sydd wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr), neu sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau i ddarparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion, gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth cymorth cartref neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd.

Caiff y gofyniad i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o unigolion sydd wedi eu cyflogi neu sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i

oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd ei ychwanegu gan y Rheoliadau hyn.

Caiff y gofyniad i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o unigolion mewn cysylltiad â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, a gwasanaeth llety diogel, ei estyn gan y Rheoliadau hyn i'w gwneud yn ofynnol cofrestru unigolion sydd wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth) yn ychwanegol at unigolion sydd wedi eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 80(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(n) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2016" yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016(**2**).

**Diwygio Rheoliadau 2016**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2016 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) O.S. 2016/1235 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/192 (Cy. 43).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cyflogaeth” yr un ystyr ag a roddir i “employment” yn adran 230(5) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**1**) ac mae’n cynnwys unigolion sydd wedi eu cyflogi pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr;”;

“mae i “gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd” (“*residential family centre service*”) yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1)(c) o’r Ddeddf a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi, yn ddarostyngedig i reoliad 4 o Reoliadau 2017;”;

“mae i “gwasanaeth cartref gofal” (“*care home service*”) yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1)(a) o’r Ddeddf a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, yn ddarostyngedig i reoliad 2 o Reoliadau 2017;”.

(3) Yn rheoliad 3 (pennu gweithwyr gofal cymdeithasol)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

“(b) sydd, yn ystod eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i oedolion,

(ii) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant,

(iii) â gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i’r Ddeddf,

(iv) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i’r Ddeddf, neu

(v) â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,

a ddarperir gan y darparwr hwnnw;”;

(ii) ar ôl is-baragraff (b) fel y’i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn mewnosoder—

“(bb) sydd, o dan gontract am wasanaethau, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad—

(**1**) 1996 p. 18.

(i) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion,

(ii) â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant,

(iii) â gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf,

(iv) â gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, neu

(v) â gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,

a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth; ";

(iii) hepgorer is-baragraff (d);

(b) hepgorer paragraff (3).

*Enw*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad